

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD CYNGOR 1 HYDREF 2019

Presennol:

Ei Deilyngdod Y Maer – Cynghorydd W Tudor Owen

Cynghorwyr:

W L Davies, A Hopcyn, E R Hughes, D L Jones, K Jones, C Larsen , E Lovgreen, B Owen , J W Parry, S Sage, M Sarnacki, I Thomas, R Thomas, C Williams

1. Ymddiheuriadau

W R Owen, K Richards,

2. Cyhoeddiadau'r Maer

11.9.2019	Cyfarfod yn GISDA
15.9.2019	Trefi Caerog – Cystadleuaeth Bowlio
22.9.2019	Sul y Maer
29.9.2019	Rali Ceir Trefi Caerog

3. Datgan Buddiant Personol

Eitem 10 – Noson Tân Gwylt – 5 Tachwedd – y Cynghorydd C Williams

4. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc).

(a) Y Fferyllfa ar y Maes

Nodwyd:

- (1) Y cafwyd cais gan y Cynghorydd M Sarnacki i gael eitem frys oherwydd fod y cyhoedd yn anhapus iawn gyda'r gwasanaeth a roddir gan y Fferyllfa ar y Maes.
- (2) Bod y sefyllfa'n golygu bod pobl yn gorfod disgwyl rhai dyddiau am eu prescripsiwn ar adegau, a gall hyn gael effaith andwyol ar eu hiechyd.
- (3) Bod pryder fod y meddygyniaethau yn gorfod dod o bellter, hynny yw o Wrecsam, a bod staff y ddwy fferyllfa yng Nghaernarfon, sef Rowlands a Boots, i gyd yn mynd am eu cinio rhwng 1.00 p.m. a 2.00 p.m., ac felly nid oedd gwasanaeth rhwng yr amseroedd hyn.
- (4) Mai'r "General Pharmaceutical Council" oedd yn arolygu fferyllfeydd, ond nid ydynt wedi gwneud Arolygiad diweddar yn Rowlands.

Penderfynwyd (yn unfrydol):

- (1) Ysgrifennu at Rowlands, y Fferylllydd ar y Maes yn mynegi pryder am y sefyllfa yno, gan ofyn i gynrychiolydd o'r cwmni ddod i gyfarfod nesaf y Cyngor ar 12 Tachwedd.
- (2) Ysgrifennu at Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.
- (3) Ysgrifennu at y "General Pharmaceutical Council" i fynegi pryder am y sefyllfa o ran fferyllfeydd yng Nghaernarfon.
- (4) Ysgrifennu at Hafan Iechyd yn mynegi pryder, gan ofyn iddynt ailystyried eu trefniadau i roi presgripsiwn i'r rhai oedd yn byw filltir a hanner o Gaernarfon yn unig, gan fod hyn yn disgrimineiddio yn erbyn trigolion y dref. Dylid nodi y dylid rhoi presgripsiwn i'r henoed sy'n byw yn nhref Caernarfon, hyd yn oed os nad oedd neb arall yn cael.
- (5) Ysgrifennu at Weinidog Iechyd Llywodraeth Cymru.
- (6) Y dylid pwysleisio'r pryder am ddiogelwch y cyhoedd yn yr ohebiaeth a nodir uchod.

(b) Adroddiad yr Archwilwyr – BDO – Archwiliad ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019

Nodwyd fod tri mater yn codi o'r uchod:

- (1) **Gwefan – Hysbysiad o Ymarfer Hawliau Etholwyr** – nid yw'r Cyngor wedi cyhoeddi'r hysbysiad o ymarfer hawliau etholwyr ar ei wefan yn ystod y cyfnod hysbysu.
- (2) **Ardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn dilyn cymeradwyo gan y Cyngor** – methodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol ag ardystio Datganiadau Cyfrifo'r Ffurflen Flynyddol ("y cyfrifon") cyn i'r Cyngor eu cymeradwyo.
- (3) **Cronfeydd** - bod fod gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn o £243,887, sy'n 107% o gyfanswm y gwariant.

Nodwyd y gellid byw efo balansau cymharol uchel os y gellid eu cyfiawnhau.

Penderfynwyd:

- (1) Arddangos yr hysbysiadau statudol yn y manau priodol.
- (2) O ran y wefan (pwynt 1) uchod – yn y dyfodol dylid sicrhau fod yr hysbysiad hwn wedi ei gynnwys ar y wefan er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth.
- (3) O ran Ardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn dilyn cymeradwyo gan y Cyngor (pwynt 2 uchod) – yn y dyfodol rhaid i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol sicrhau fod y cyfrifon yn cael eu hardystio, cyn i gyfarfod y Cyngor llawn gymeradwyo'r cyfrifon cyn y 30 o Fehefin, yn union wedi diwedd y flwyddyn ariannol.
- (4) Cronfeydd (pwynt 3 uchod) - bod fod gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn o £243,887, sy'n 107% o gyfanswm y gwariant – bod angen i'r Cyngor roi ystyriaeth wrth gyllidebu ar gyfer y flwyddyn nesaf.

- (5) Gofyn i'r Pwyllgor Cyllid ystyried Cronfeydd yn ei gyfarfod nesaf ar y 22 Hydref, gan ddarganfod faint o arian sy'n dderbyniol i gael wrth gefn, a chynllunio o fewn y ffiniau hynny.**

5. Cofnodion

I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

i. Cyngor - 3 Medi 2019

Penderfynwyd:

- (1) Derbyn fel rhai cywir, yn amodol ar nodi nad oedd rhestr o'r Cynghorwyr a oedd wedi ymddiheuro yn y fersiwn Saesneg (unfrydol).**
- (2) Gofyn i'r Clerc holi beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf parthed plac Capel Ebenezer.**

ii. Pwyllgor Adloniant - 10 Medi 2019

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).

iii. Cyfarfod Cyffredin Ychwanegol - 17 Medi 2019

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol), yn amodol ar nodi fod y Cynghorydd J W Parry yn awyddus i ymddiheuro ar gyfer y cyfarfod (roedd yn cael trafferth efo'i e-byst ar y pryd, a ddim yn ymwybodol fod y cyfarfod ymlaen).

iv. Pwyllgor Gwaith - 24 Medi 2019

Aeth Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith drwy'r cofnodion er mwyn rhoi gwybodaeth gefndirol i'r trafodaethau i'r rhai nad oeddent yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith.

Penderfynwyd:

- (1) Derbyn fel rhai cywir (unfrydol).**
- (2) Datgan na ddylai unrhyw aelod ryddhau gwybodaeth am drafodaethau mewn unrhyw bwyllgor hyd nes fod y penderfyniadau wedi derbyn sêl bendith y Cyngor Llawn.**

6. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu.

Nodwyd fod y cytundeb am y Bil Nwy yn dod i ben fis Tachwedd, a bydd yr adnewyddiad yn cael ei roi gerbron y Pwyllgor Cyllid ar yr 22 Hydref.

Penderfynwyd:

- (1) Derbyn a'u talu (unfrydol).**
- (2) Gofyn i'r Clerc wirio pam fod 2 fil am lanhau swyddfeydd yr Institiwt wedi digwydd yn yr un mis.**

7. Cysoni cyfrifon

Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth (unfrydol).

8. Unllais Cymru - Ddeddf yr Amgylchedd Cymru 2016 - Dyletswydd Cyngorau Chymuned a Thref o dan Adran 6

Cyflwynwyd e-bost gan Unllais Cymru yn nodi:

- (1) Ei bod yn ofynnol ar awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys Cyngorau Cymuned & Thref) o dan Ddeddf yr Amgylchedd Cymru 2016 Adran 6 i baratoi a chyhoeddi cynllun yn amlinellu'r hyn y bwriadant ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i gynnal a chryfhau Bioamrywiaeth o fewn eu meysydd gwaith presennol.
- (2) Y bydd Canllawiau yn cael eu cyhoeddi maes o law.

Penderfynwyd trafod yr e-bost, ynghyd â'r holl ddogfennaeth oedd yn atodol, yn y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod nesaf (unfrydol).

9. Gwynedd a Môn Age Concern

Rhannwyd, er gwybodaeth, ohebiaeth am ddigwyddiadau gan Gwynedd a Môn Age Concern.

Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth (unfrydol).

10. Noson Tân Gwyllt

Penderfynwyd symud noson y Cyngor o 5 Tachwedd i 12 Tachwedd, gan felly osgoi Noson Tân Gwyllt (unfrydol).

11. Cwestiynau

Dim.

Gorffennodd y Cyfarfod am 6.45 p.m.

Arwyddwyd Dyddiad